
Rhif 198 RHAGFYR 2015 - IONAWR 2016

AM DDIM

# Gwyliedydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD



Cawr mawr bychan,
Cryf, cadarn, gwan, gwynion ruddiau;
Cyfoethog, tlawd,
A'n Tad a'n Brawd, awdur brodiau.
Iesu yw hwn ...
Uchel, isel,
Emanuel mêl meddyliau.

(Madog ap Gwallter, G13)

# O'r pen yma



gan Angharad Tomos

Dwi'n eistedd mewn oedfa weithiau, efo'r hanner dwsin arall sy'n y gynulleidfa, ac yn meddwl am y 'cyrddau mawr' ers talwm. Meddwl pam mod i'n sownd efo criw bach mewn festri ar gychwyn yr G21, yn hytrach nag efo'r dorf enfawr oedd yn llenwi capel ers talwm.

Dwi'n anghywir. Weithiau, doedd na ddim torf enfawr.

Rhyw fore Sul yng Nghapel Wesla Aberdaron oedd hi, ym 1845, a saith oedd yn y gynulleidfa. Gwn hyn gan fod Hanna Jones, Cyll y Felin, yn un ohonynt, (roedd hi yn hen nain i'm hen nain). Penderfynwyd dod â'r achos i ben, er mawr ofid i Hanna Jones a dwy arall. Ond gwyddent y byddai'n rhaid i'r mater ddod gerbron y Cyfarfod Chwarter ym Mhwllheli. Dyma gychwyn o Aberdaron yn ystod oriau mân y bore, i fod ym Mhwllheli mewn pryd. Ym Mhwllheli, gwelwyd y tair gwraig gan fam y Parch Evan Richards, a chawsant damaid o frecwast ganddi cyn i'r pedair weddïo. Aethant i'r Cyfarfod Chwarter a chael 'sicrwydd na roddid yr achos i fyny'. Erbyn 1859, cawsant ganiatâd i godi capel newydd. Da de? Rhyw hanesion felly sydd yna yng nghyfrolau 'Hanes Wesleyaeth Gymreig'.

Does gen i ddim llun o Hanna Jones. Gwn ei bod yn anllythrennog, gan na fedrai lofnodi ei thystysgrif priodas hyd yn oed. Ond mae'r stori hon wedi rhoi cig ar yr asgwrn iddi, a dwi wedi cael llun meddyliol ohoni hi - a'r ddwy arall, gwraig Gwrthrian a gwraig Pwll Cyw. Rwy'n meddwl amdanynt, yn y capel bach efo llond dwrn, a'r gweinidog yn dweud fod yn rhaid dwyn yr achos i ben. Gallent fod wedi plygu eu pennau yn drist a derbyn y drefn. Beth allai tair gwraig ei wneud - yn enwedig yn yr oes honno?



Gallent fod wedi pitïo, a mynd adref, gan feddwl mai 'oes felly ydi hi'. Ond ddaru nhw ddim. Mi gofion nhw am rym gweddi. Wn i ddim sut roedd rhywun yn teithio ym Mhen Llŷn yn 1845 – oedd ganddyn nhw drol a cheffyl? Fedra i ddim meddwl eu bod wedi cerdded yr holl ffordd. Ond sut bynnag yr aethant yno, roedd yn golygu codi yn fore iawn, a'r peth pwysig yw eu bod wedi gwneud yr ymdrech. Dwi'n meddwl amdanynt ar sgwâr Pwllheli, yn eu ffrogiau hir a'u hetiau, a mam y gweinidog yn bod yn glên efo nhw a rhoi tamaid iddynt i'w fwyta. Am eu hymdrech, cawsant eu gwobr, a ddaru'r capel ddim cau.

Dwi'n eistedd yn yr oedfa rŵan, ac yn cofio am y tair gwraig o Aberdaron. Mae gen innau y dewis o dderbyn y drefn, neu weddïo y bydd newid, a gwneud rhywbeth yn ei gylch.

A rywfodd, mi garwn i tase Hanna Jones, Cyll y Felin, yn cael gwybod. Ei bod nid yn unig wedi sefyll a gweithredu, ond ei bod hefyd wedi ysbrydoli gwraig arall, a honno yn byw 170 mlynedd yn y dyfodol!

Mae hynny yn waddol go lew, tydi?



## Plannu hadau

Bob pnawn dydd Sul mae tri o blant bach yn addoli yng nghapel Saron, Bethel. Eu henwau yw Huw, Cadi a Charles. Ym mis Mehefin eleni, daeth Ellie Jones, un o bregethwyr cynorthwyol Arfon, i arwain yr oedfa yn Saron. Rhoddodd anrheg i'r plant sef pecyn o hadau. Wedi iddynt blannu'r hadau yn nhŷ eu nain, bu'r tri yn brysur yn dyfrio a gofalu am y planhigion. A dyma luniau i bawb eu gweld o'r blodau haul melyn a ddaeth o'r hadau.

Fel y gwna'r ddaear i'r blagur dyfu, a'r ardd i'r hadau egino, felly y gwna'r Arglwydd Dduw i gyfiawnder a moliant darddu gerbron yr holl genhedloedd.
(Eseia 61:11)

**Gwellhad llwyr a buan i Robin, cyd-olygydd y Gwyliedydd oddi wrth eich cyd-olygydd, pawb yn Saron, Bethel a'ch ffrindiau i gyd yn Synod Cymru.**

**Gwyliedydd** Synod Cymru

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU
YR EGLWYS FETHODISTAIDD
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 198**

**RHAGFYR 2015 – IONAWR 2016**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru.
6 rhifyn drwy'r post £4.

**Hoffem eich atgoffa'n garedig, er bod y *Gwyliedydd* am ddim, fod angen talu swm bychan iawn, £4 y flwyddyn, i gael copi unigol drwy'r post.**

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

***Golygyddion:***

**ROBIN JONES**
LLYS ALAW, 18 STÂD ERYRI
BETHEL, CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn: 01248 670140
symudol: 07780869907
e-bost:
robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA, GWYNEDD LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
e-bost:
ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

***Croeso i chi anfon at Robin neu Ffion***

**DYDDIAD CAU: 5 IONAWR, 2016**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "**Yr Eglwys Fethodistaidd – Synod Cymru"**

Argraffwyr:
Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018

Diolchwn yn gynnes am y tanysgrifiadau a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r ***Gwyliedydd***:

| | |
|---|---|
| Ann Owen, Cyffordd Llandudno | £54-00 |
| Manon Griffiths, Llandegfan | £4-00 |
| Elizabeth Owen, Pwllheli | £10-00 |

## GWEITHREDU DROS BLANT

| | |
|---|---|
| Capel Peniel, Llanelwy | £40-00 |
| Y Parchedig Ddr a Mrs O.E. Evans | £20-00 |
| Soar Brunswick, Y Rhyl | £100-00 |

*Gyda diolch, Robin Jones*

# O'R GADAIR AR Y GOROR

**gan y Parchedig JENNIFER HURD**

*O deuwch, ffyddloniaid, oll dan orfoleddu,*
*O deuwch, O deuwch i Fethlehem dref*

Un Nadolig, pan oeddwn yn gwasanaethu fel gweinidog yn hen Gylchdaith y Glannau, cofiaf imi holi un o aelodau ein heglwys yn yr Wyddgrug am y gwasanaeth a gawsant fore dydd Nadolig. Mae'n rhaid nad oeddwn yno am mai fy nhro i oedd hi i wasanaethu yn ein heglwys ar y cyd â Chylchdaith Buckley and Deeside yn y Fflint y bore hwnnw. Gwasanaeth undebol oedd wedi'i gynnal yn yr Wyddgrug, o dan ofal un o gapeli Cymraeg eraill y dref. "Sut oedd eich gwasanaeth bore dydd Nadolig?" gofynnais. "Iawn, diolch," oedd yr ateb. "Ond wnaethon ni ddim canu 'O deuwch, ffyddloniaid'. Dydy'r Nadolig ddim yn Nadolig heb 'O deuwch, ffyddloniaid'!" Roedd yn amlwg fod hyn wedi peri cryn siom i'r sawl oedd yn siarad â mi!

Mae gennym i gyd ein hoff garolau Nadolig – rhai, hyd yn oed, sydd yn gwneud inni ddweud "Dydy hi ddim yn Nadolig heb..". A minnau'n gwasanaethu yng Nghymru, gwelaf eisiau rai o'm hoff garolau Saesneg ond dysgais garu llawer o garolau Cymraeg a oedd yn newydd i mi pan ddes i yma. Mae pawb yn hoffi canu adeg y Nadolig – ambell un nad yw'n canu emyn o un pen i'r flwyddyn i'r llall ond sy'n bloeddio 'Dawel nos' ar Noswyl y Nadolig! Ni ddylai hyn ein synnu, chwaith, gan mai tymor llawenydd yw'r Nadolig, a beth fyddwn ni'n ei wneud pan fyddwn yn hapus? Wel, canu! Fel Cristnogion, byddwn yn ymuno i addoli, i ganu am enedigaeth Iesu Grist ac i ddod â'n mawl gerbron Duw. Ac yn ôl y sôn, mae'r weithred o ganu ynddi ei hun yn rhyddhau endorffinau yn y corff, sy'n gwneud inni deimlo'n dda, ac yna byddwn yn awyddus i ganu mwy. Efallai y tybiwn ein bod ni'n rhoi rhywbeth i Dduw, sef ein haddoliad, ond y gwir yw mai Duw sy'n rhoi rhywbeth da i ni, fel bob amser, wrth i'r canu wneud i ni deimlo hapusrwydd. Yn sicr, mae cerddoriaeth a chanu yn rhan fawr o'n dathlu.

Yn hyn o beth, byddwn yn ymuno mewn traddodiad sydd, yn ôl efengyl Luc, yn mynd yn ôl i'r Nadolig cyntaf. Meddyliwch am y cerddi ym mhenodau cyntaf Luc sydd yn rhan o ganiadau'r Eglwys gyfan ers llawer canrif: cân Mair mam Iesu, y Magnificat; cân Sachareias, tad Ioan Fedyddiwr, y Benedictus; y Gloria sef cân yr angylion wrth gyfarch y bugeiliaid ar fryniau Bethlehem; a chân Simeon pan gyfarfu â'r Gwaredwr newydd-anedig yn y Deml, y Nunc Dimittis. Er i'r Ysgrythur sôn amdanynt yn *dweud* rhai o'r cerddi hyn, anodd meddwl na fuasent wedi eu canu yn eu llawenydd mawr. Mewn drama fer o Gymuned Iona, ceir deialog rhwng Iesu a Pedr lle maent yn sôn am amrywiaeth cerddoriaeth eglwysig. Meddai Pedr wrth Iesu, "You're a great boy for the singing, Jesus," ac ymateb Iesu yw: "And I take that off my mother"! Mae'n sicr y byddai Mair wedi canu wrth feddwl am eni ei phlentyn. Roedd 'I got you, babe' gan Sonny a Cher yn y siartiau pan ges i fy ngeni ac, er nad oedd ganddi lais canu, fe ganodd Mam y gân honno i mi yn faban!

Pethau i'w rhannu yw cerddoriaeth a llawenydd y Nadolig. **Wrth feddwl am thema prosiect Synod Cymru eleni, sef Addoli, beth am fynd â'r llawenydd a'r gerddoriaeth allan o'n capeli ym mis Rhagfyr, at bobl eraill?** Does dim byd haws (onest!) na hel grŵp bach o bobl at ei gilydd, cymryd llond llaw o lyfrau emynau o'r capel ac ymuno i ganu ychydig o garolau mewn man cyhoeddus. Rhaid gofyn caniatâd, wrth gwrs, i ganu yng nghyntedd archfarchnad neu mewn tafarn leol, er enghraifft, ond mae'n hollol bosib canu tu allan i'r capel os bydd pobl o gwmpas a'ch bod yn siŵr na fyddwch yn achosi tagfa draffig! Gall fod yn gyfle i godi arian at achos da, hefyd - Gweithredu Dros Blant, er enghraifft - os ewch â blwch casglu efo chi, er nad yw hynny'n angenrheidiol chwaith. Yn syml iawn, gall fod yn gyfle i rannu llawenydd y tymor drwy gyfrwng canu a cherddoriaeth.

**Wrth i chi ganu, boed i lawenydd y Nadolig gynyddu, yn eich calon, yn eich capel, yn eich cymuned. *O deuwch ac addolwn Grist o'r nef!***



# CNOI CIL

gan Gwyndaf Roberts

Unwaith eto mae'r Parchedig Vivian Jones wedi gwneud cymwynas fawr â Christnogion Cymru drwy gyhoeddi cyfrol arall heriol a diddorol sef ***Symud Ymlaen - 12 ysgrif yn trafod heriau'r ffydd Gristnogol***. Fe gred y Dr Vivian Jones fod rhai meddyliau ac arferion yn ein dal yn ôl fel Cristnogion yng Nghymru heddiw. Yn ei lyfr mae'n awgrymu ffyrdd newydd o edrych ar ein meddyliau a'n harferion a all fod yn gymorth i ni symud ymlaen.

Yn wreiddiol o'r Garnant ger Gwauncaegurwen (cyn symud i Lwynhendy), cafodd ei addysgu yn Ysgol Sirol Llanelli, Coleg Prifysgol Bangor a Choleg Bala-Bangor. Ordeiniwyd ef yn 1955 a bu'n weinidog mewn sawl man cyn cael ei alw'n ben-gweinidog eglwys Plymouth, Minneapolis, ail eglwys fwyaf Annibynwyr yr Unol Daleithiau, gan dreulio pymtheg mlynedd yno. Mae wedi ymddeol bellach ac wedi dychwelyd i Gymru, ond mae ymhell o fod yn segur.

Yr hyn sy'n dod yn amlwg o ddarllen ei gyfrolau yw hyd a lled ei wybodaeth am ddatblygiadau ym myd crefydd ledled y byd. Mae ganddo'r ddawn i grynhoi, yn gwbl ddealladwy, syniadau cymhleth y byd diwinyddol gan roi cyfle i'r addolwr cyffredin gael cip ar rai o ddirgelion y ffydd. Mae *Symud Ymlaen* yn frith o gyfeiriadau at gyfrolau cyfoes ym myd crefydd sy'n gofyn cwestiynau nad ydynt yn cael eu trafod yn aml o'n pulpudau. Fe fyddai o les i bawb sy'n pregethu yng Nghymru heddiw droi at y gyfrol hon yn y gobaith y bydd yr hyn sydd gan y Dr Vivian Jones i'w ddweud yn ysgogi ffyrdd newydd o gyflwyno Cristnogaeth i bobl ein gwlad.

Ond efallai mai cyfrol fwyaf heriol y Dr. Jones yw ***Y Nadolig Cyntaf*** a ddaeth o'r wasg yn 2006. Ysgogwyd ef i gyhoeddi'r llyfr unigryw hwnnw wedi darllen *The Birth of the Messiah* gan Raymond Brown, Pabydd ac athro yng Ngholeg Diwinyddol Astudiaethau Beiblaidd, Efrog Newydd. Cyhoeddwyd cyfrol Brown yn 1977 gan nodi nad oedd gwaith ysgolheigaidd mewn unrhyw iaith wedi trafod y Nadolig yn ei gyfanrwydd. Y tu cefn i'r methiant hwnnw oedd y gred ymhlith ysgolheigion bod storïau ynglŷn â breuddwydion, angylion, seren a doethion yn gyfryngau annheilwng i neges yr efengyl. Canlyniad anorfod methiant o'r fath yw bod cred ar led mai stori i blant yw'r Nadolig ac mai rhywbeth ar eu cyfer hwy yw'r cyfan. Fe aeth y Nadolig modern yn gyfle i dargedu plant gyda phob math o nwyddau nad oes iddynt unrhyw arwyddocâd crefyddol Cristnogol. Dyna pam mae anffyddwyr a phaganiaid yn gallu ymuno yn hwyl y gyfeddach heb dresmasu o gwbl ar eu credoau personol.

Mae stori'r Nadolig a bywyd Iesu Grist yn un am berthynas Duw, nid yn unig â'i fab, ond gyda'r teulu dynol hefyd. O ddarllen yr Hen Destament, fe geir yr ymdeimlad o'r teulu fel uned cwbl hanfodol i fywyd gwâr. Yn raddol tyfodd y syniad o'r



llwyth ac yna'r genedl fel uned o dan arweiniad Duw. Mae'r syniad o deulu a pherthynas yn dal yn bwysig i ni heddiw hefyd ac mae'r pwyslais a roddir i'r uned deuluol gan yr Eglwys yn deillio o'r darlun o Dduw fel Tad.

Y baban Iesu yn y preseb yw canolbwynt y Nadolig wrth gwrs, ond mae cyfle i syllu ar gymeriadau eraill hefyd megis Mair. Mae ei hufudd-dod a'i dewrder o dan amgylchiadau cwbl unigryw yn drawiadol a dweud y lleiaf. Y gred bellach yw mai addasiad o weddi Hanna, mam Samuel yw Emyn Mawl Mair (gweler 1 Samuel 2). Efallai bod y darlun a groniclodd Luc wedi lliwio Mair fel merch dawel a diniwed. Darllenwch ei hemyn eto ac fe welwch mai cân brotest oedd ganddi am rymusterau, gwasgar y balch, dymchwel gorseddau a dyrchafu'r distadl. Mae'r gân yn broffwydoliaeth un oedd am roi genedigaeth i fab a fyddai yn gweddnewid y byd.

Gŵr yn y cefndir yw Joseff yr Efengylau. Prin fod ei wyneb i'w weld yn narluniau'r meistri ond er hynny roedd yr hyn a wnaeth, sef ufuddhau i alwad yr angel yn gwbl ganolog yn hanes y geni. Pe byddai Joseff wedi gollwng Mair yn ddirgel, fe fyddai ei bywyd hi a'i mab yn y fantol. Er mai gŵr yn y cefndir yw Joseff fe briododd Mair, a derbyn y mab a'i warchod. Magodd gyda Mair blant eraill gan roi i Iesu frodyr a chwiorydd y gwelwn gip ohonynt o dro i dro yn y Testament Newydd. Daeth Iago, un o'i frodyr, yn arweinydd yr Eglwys yn Jerwsalem ac fe gredir mai ef o bosib yw awdur Llythyr Iago.

Ie, gŵyl y teulu yw'r Nadolig ac mae pobl yn cael ei denu gan awyrgylch a chyfeillgarwch yr achlysur. Ysywaeth ni fydd pob teulu yn gytûn y Nadolig hwn ond y newydd da yw bod y Nadolig yn rhodd i bawb. Wedi'r cyfan teulu dyn yw teulu Duw.

### Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd

**RHAGFYR 2015**

6 DYFFRYN CLWYD
13 BATHAFARN
20 CEREDIGION
27 GLANNAU MAELOR

**IONAWR 2016**

3 LLANRHAEADR
10 Ar gael (bore a phrynhawn yn unig)
17 DYFFRYN CONWY
24 POWYS
31 GLANNAU MAELOR

### Gair gan Lywydd Cymru, Merched Methodistaidd, Gwenda Humphries

Hoffwn ddiolch o galon i'n holl chwiorydd a ddaeth ag anrhegion i gyfarfod yr hydref eleni, i Mari eu cyflwyno i'r Hosbis. Cefais fy ysbrydoli gan eich haelioni ac rwy'n siŵr y bydd hyn yn fodd i ddod ag ychydig o gysur i rai sydd yn dioddef. Pob bendith, Gwenda.

### MAGNIFICAT (Beibl.net)

O, dw i'n moli'r Arglwydd!
Mae Duw, fy Achubwr, wedi fy ngwneud i mor hapus!
Roedd yn gwybod bod ei forwyn yn ferch gyffredin iawn,
ond o hyn ymlaen bydd pobl o bob oes
yn dweud fy mod wedi fy mendithio,
Mae Duw, yr Un Cryf, wedi gwneud pethau mawr i mi —
Mae ei enw mor sanctaidd!
Mae bob amser yn trugarhau wrth y rhai sy'n ymostwng iddo.
Mae wedi defnyddio ei rym i wneud pethau rhyfeddol! —
Mae wedi gyrru y rhai balch ar chwâl.
Mae wedi cymryd eu hawdurdod oddi ar lywodraethwyr,
ac anrhydeddu'r bobl hynny sy'n 'neb'.
Mae wedi rhoi digonedd o fwyd da i'r newynog,
ac anfon y bobl gyfoethog i ffwrdd heb ddim!
Mae wedi helpu ei was Israel,
a dangos trugaredd at ei bobl.
Dyma addawodd ei wneud i'n cyndeidiau ni —
dangos trugaredd at Abraham a'i ddisgynyddion am byth.

# COFIO GEORGE

gan y Parchedig Philip Barnett

Ym mis Medi 1951 symudodd y Parchedig Herbert Brewer gyda'i deulu o Lundain i Wrecsam i fod yn Arolygwr ar Gylchdaith Poyser Street. Roedd George, un o'i feibion, yn 11 mlwydd oed ar y pryd a dechreuodd ei addysg yn Ysgol Grove Park. Yno dangosodd allu arbennig mewn ieithoedd ac, yn naturiol, fe ddysgodd yr iaith Gymraeg. Aeth yn ei flaen wedyn i Brifysgol Bangor i wneud gradd yn y Gymraeg.

Clywodd George alwad i'r weinidogaeth yn yr Eglwys Fethodistaidd a dyna sut y bu iddo gyrraedd Coleg Hartley Victoria yr un diwrnod yn union â minnau. Roedd dau arall o Gymru eisoes yn y Coleg sef Dennis Griffiths a Dafydd Arfon Jones, ynghyd â Darlithydd yn y Testament Newydd sef y Parchedig Ddr Owen E Evans.

Roedd George yn un ar ben ei hun mewn llawer ffordd ond roedd ganddo'r ddawn i wneud ffrindiau â phawb. Bryd hynny roedd oddeutu 75 o fyfyrwyr yn derbyn hyfforddiant ar gyfer y weinidogaeth a hefyd o gwmpas 25 o "non-theologs" - hogiau oedd yn byw yn y Coleg ond yn astudio pynciau eraill yn y Brifysgol. Roedd George yr un mor gyfforddus yng nghwmni pawb.

Cwbl anghonfensiynol oedd gwisg



George bob amser: crys heb dei, jympar, jîns a slipers ac, yn amlach na pheidio, byddai'n ysmygu sigarét denau, denau, wedi'i rholio! Cofiaf yn dda iawn y tro cyntaf i George arwain y gwasanaeth hwyrol yng Nghapel y Coleg – rhywbeth y byddai pawb yn ei wneud yn ei dro. Y drefn bryd hynny oedd gwisgo gŵn i ymgymryd â'r dasg ond nid dyna steil George! Daeth i mewn wedi'i wisgo yn union fel arfer. Ymlaen ag ef at y ddarllenfa. Dechreuodd y dynion gilwenu a chwerthin; wedi'r cwbl, nid oedd neb wedi gweld y fath beth o'r blaen yn y Capel.

Cyflwynodd George yr emyn cyntaf a'r darlleniad i ddilyn ac roedd y dynion yn dal i laswenu. Wedyn, dywedodd George "let us pray" ac fe dynnodd ei sbectol a phenlinio i lawr wrth droed y ddarllenfa. Fe aeth â'r gynulleidfa yn syth at Orsedd Duw a thawelodd pob lledchwerthin.

Cofiaf Brifathro Coleg Hartley Victoria, y Parchedig Ddr Percy Scott yn dweud wrth George, "Mr Brewer, bydd yn rhaid i chi dacluso eich hun dipyn bach cyn mynd allan i Gylchdaith neu ni fydd eich pobl eisiau eich adnabod!" Ond, er ei holl hynodrwydd, enillodd George hoffter pawb. Ei Gylchdaith gyntaf oedd Pwllheli ac yna bu ym Mhorthmadog, Coedpoeth, Llanasa, Caernarfon ac Arfon. Am rai blynyddoedd bu'n olygydd y Gwyliedydd ac edrychai pawb ymlaen at ddarllen ei golofn olygyddol a'i adolygiadau o lyfrau. Ymatebodd George i gais gan Bwyllgor Cyffredinol yr Ysgol Sul a Chyngor Ysgolion Sul Cymru i ysgrifennu gwerslyfr ar ddetholion o'r efengyl yn ôl Luc a gyhoeddwyd ym 1976 gan Lyfrfa'r MC. Fe wisgodd ei ysgolheictod yn ysgafn ond, yn bendant, petai wedi byw, buasai llawer mwy o'i waith wedi gweld golau dydd.

Roedd yn fugail da, yn bregethwr grymus, yn ffrind a chefnogwr i bobl ifanc. Synnodd llawer wrth ei weld yn y dafarn gyda phobl ifanc ond, wrth weld cynifer ohonynt yn ei angladd, hawdd oedd dirnad pa fath ddylanwad a gawsai George arnynt. Roedd rhyw sancteiddrwydd ganddo a oedd yn amlwg i bawb. Yn hael wrth natur a thrwy ras, fe roddodd o'i amser, ei arian a'i dalent mewn ufudd-dod i'r Efengyl. Byddai George yn mynd i bobman ar ei feic modur. Un diwrnod pan oedd ar daith ym Môn, aeth heibio i drol fawr wedi'i llwytho â gwair. Disgynnodd y llwyth i gyd arno a'i ladd.

Daeth George yn Gymro ac fe garodd yr iaith, y diwylliant a'r genedl yn fawr iawn. Roedd yn ddilys, yn gydwybodol, yn garedig ac yn driw i'w alwedigaeth. Tri deg naw mlwydd oed ydoedd pan fu farw: colled fawr i weinidogaeth yr Eglwys Fethodistaidd ac i lu o bobl y tu mewn a'r tu allan i'r Eglwys. Buasai wedi bod yn 75 mlwydd oed eleni. Rydym yn dal i weld ei eisiau ac yn ei gofio gyda serch a diolchgarwch.




**STORI CAPEL WAENGOLEUGOED – SUL, GŴYL A GWAITH**

Dathlu Dauganmlwyddiant (1815-2015) yr Achos

Golygydd: Mari Lloyd Williams. Cyhoeddiadau Modern



Gwerthir y gyfrol er budd Gofal Dydd a Grŵp C3. Cost £10 (£12 drwy'r post).
Sieciau yn daladwy i "Capel y Waen" trwy law Mari Lloyd-Williams,
Ysgrifennydd Capel y Waen, Tŷ Capel, Waen, Llanelwy LL17 0DY

# CAPEL NI
YN EGLWYS IESU

## Pendref, Dinbych

**ADDOLI**
Cawsom ein harwain mewn addoliad gan Mrs Enid Mair Jones, y Parchedig Cledwyn Parry a Mrs Nesta Barker Jones; cawsom gyfle hefyd i gyd-addoli a dathlu'r cynhaeaf ym Mheniel Llanelwy dan arweiniad y Parchedig John Barnett.

**TREFNU**
Yn ein cyfarfod blynyddol eleni, trafodwyd y gwaith ar y Tŷ Capel a mynegwyd pryder ynglŷn â'r oedi o ran cael caniatâd i wneud y gwaith ar nenfwd y capel. Cytunwyd i gydweithio'n agos a chydaddoli â chapel Peniel Llanelwy a byddwn yn trefnu pryd o fwyd inni gael cyd-gymdeithasu yn y flwyddyn newydd. Ar Dachwedd 21ain cynhelir Ffair Hydref yng Nghanolfan Eirianfa.

**PEN-BLWYDD HAPUS**
Llongyfarchiadau i Hywel Evans, ysgrifennydd yr eglwys, ar ddathlu pen-blwydd arbennig.

*Gohebydd – Medwyn Jones*

## Salem, Rhyd y Foel

**DIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd ein gwasanaeth o ddiolch-garwch am y cynhaeaf dan arweiniad y Parchedig Glyn Thomas a chroesawyd nifer o aelodau Hyfrydle, Betws yn Rhos, a chyfeillion o'r pentref i gydaddoli â ni. Diolch i Mrs Rhiannon Jones, Cefn Isa, am gyfeilio ac i Menna ac Esther am addurno'r ffenestri mor hardd gyda basgedi o ffrwythau a llysiau.

**CINIO SUL**
Fore Sul Hydref 25ain bu'r Parchedig Huw John Hughes, Porthaethwy, yn gwasanaethu ac yn dilyn yr oedfa aeth yr



aelodau a chyfeillion i westy Bod Erw, Llanelwy, i fwynhau cinio dydd Sul blasus. Diolch i Mrs Margaret Roberts am gyfeilio yn y gwasanaeth ac i Miss Esther Roberts am drefnu'r pryd bwyd.

**MAES PARCIO**
Diolch i Eifion Tan 'Rogo am drwsio a phaentio giât y maes parcio.

*Gohebydd – Siân Price*

## Pisgah, Rhiwlas

**CYDYMDEIMLO**
Yn ddiweddar daeth profedigaeth i ran Mrs Marie Williams, Bangor. Bu farw ei merch Christene a oedd yn byw yng Nghonwy. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ati hi a'r teulu i gyd.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Mrs Caren Rowlands ar ei phenodiad i swydd Dirprwy Brifathrawes yn Ysgol Glan Cegin, Maesgeirchen, Bangor.

**YMDDEOLIAD**
Dymunwn ymddeoliad hapus i Mrs Einir Williams yn dilyn gyrfa ym myd addysg. Bu Einir yn dysgu plant ysgol gynradd Rhiwlas ar gyfer ein Gŵyl Diolchgarwch yn ddiweddar a braf oedd eu gweld yn mwynhau'r profiad.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion at Mr John Huw Evans, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac at Heulwen a hefyd rai o'r aelodau eraill nad ydynt mewn iechyd da.

*Gohebydd – Dilys Parry*

## Bethel, Rhiwbeina

**PRIODAS**
Dymuniadau gorau i Lois Richards a Trevor Heulin ar eu priodas. Gweinyddwyd gan y Parchedig Glyn Tudwal Jones.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Trystan Francis a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth yr unawd bariton dros 25 yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

**CYMDEITHAS BETHEL**
Cynhaliwyd swper a chafwyd noson ddymunol dros ben i ddiweddu tymor yr haf. Yna ym mis Medi, aeth rhai o aelodau mwyaf heini'r capel am dro o gwmpas Llyn Parc y Rhath cyn mwynhau cinio yn y 'Three Arches' gyda nifer o'r aelodau llai heini!

**BORE GOFFI**
Ar 25 Medi cynhaliwyd bore goffi yn y capel er budd Nyrsys MacMillan. Diolch i Siân Francis a'r aelodau eraill a'i cynorthwyodd am drefnu'r bore llwyddiannus hwn.

**CROESO I'R BYD**
Llongyfarchiadau i Gareth a Hayley Jones ar enedigaeth Erin Ann, wyres i Wyn a Julie Jones. Llongyfarchiadau hefyd i Gerallt a Nia Evans ar enedigaeth Twm Dafydd, brawd bach i Guto a Deio.

**DADORCHUDDIO PLAC GLAS**
Ar 24 Hydref dadorchuddiwyd plac glas ar wal Rhif 8 Lôn Isa, Rhiwbeina, lle bu Dr Kate Roberts yn byw am gyfnod. Trefnwyd yr achlysur gan Gymdeithas Ddinesig Rhiwbeina a bu paned a chyfle am sgwrs yn Festri Bethel ar ôl y seremoni ddadorchuddio.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Mrs Eira Gage a'r teulu ar farwolaeth mam Eira yn ddiweddar.

*Gohebydd - Gwilym E. Roberts*

## Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**DIOLCHGARWCH**
Yn Eglwys Preswylfa y cynhaliwyd yr ŵyl Ddiolchgarwch Undebol eleni, dan lywyddiaeth y Parchedig Gareth Edwards. Yr organydd oedd Mrs Jane Jones. Diolch i bawb a gymerodd ran. Cafwyd anerchiad arbennig ar y gair "Diolch" gan y Parchedig Helen Wyn Jones. Addurnwyd y capel â blodau, ffrwythau a llysiau.

**SUL Y BEIBL**
Dathlwyd Sul y Beibl eleni yn Eglwys Pensarn dan arweiniad Mrs Eirlys Wright a chymerwyd rhan gan aelodau o Eglwysi Cymraeg a Saesneg y Gyffordd. Y pregethwr oedd y Parchedig Philip Barnett.

**PEN-BLWYDD**
Pob dymuniad da i'r Parchedig Arglwydd Roger Roberts a ddathlodd ei ben-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

*Gohebydd – Eirian Jones*

## Ebeneser, Trefor, Môn

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Mrs Margaret Owen a Mrs Gwyneth Thomas a'r teulu, y bu farw perthynas iddynt yng Nghyffordd Llandudno.

**LLONGYFARCHIADAU**
Dymunwn yn dda i Dr Edward Thomas Jones sydd wedi derbyn swydd fel darlithydd yn ei hen goleg, Prifysgol Bangor. Bu'n byw yn Iwerddon am flynyddoedd ond bellach dychwelodd i Ynys Môn.

**DIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd gwasanaeth bendithiol ar nos Lun Diolchgarwch, o dan ofal y Diacon Stephen Roe.

**GWELLHAD BUAN**
Dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i Mr Robyn Parry.

*Gohebydd – Carys Thomas*

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU

## St. Paul, Aberystwyth

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Florence Edwards, merch Michael a Fran, sydd wedi graddio mewn cerddoriaeth o Brifysgol Lerpwl.

**BRYSIWCH WELLA**
Anfonwn ein dymuniadau gorau am adferiad buan at Megan Hughes a fu yn Ysbyty Bronglais ers rhai wythnosau.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddwys â'r Parchedig James Patron Bell ym marwolaeth ei fam ac â'r Parchedig Roger Hides y bu farw ei dad.

*Gohebydd – Lionel Madden*

## Ebeneser, Eglwysbach

**DIOLCHGARWCH**
Cawsom bregeth fendithiol gan y Parchedig Arglwydd Roger Roberts yn ein Cyfarfod Diolchgarwch eleni - ychydig ddyddiau cyn ei ben-blwydd yn 80. Dymuniadau gorau iddo oddi wrth bawb yn Eglwysbach. Diolch i Mrs Elen Hughes am gyfeilio.

*Gohebydd – Charles Crapper*

## Eglwys Unedig Colwyn

**CYFARFOD GWEDDI**
Cynhaliwyd y Cyfarfod Gweddi misol yn Horeb ar Fedi 7; diolch i Catherine, Gwenllian a Ken am gymryd rhan ac i Mr Gwyn Jones am gyfeilio.

**COLLED**
Cydymdeimlwn yn ddwys â Catherine a'r teulu ar farwolaeth eu hannwyl ewythr Tom.

**GWELLHAD BUAN**
Pob dymuniad da i Mrs Megan Williams a Mrs Blodwen Jones (Abbey Dale) a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**CYNGERDD CAROLAU**
**Cynhelir y Cyngerdd Carolau Elusennol blynyddol am 7 o'r gloch, nos Iau Rhagfyr 3 yn Horeb, Bae Colwyn dan arweiniad y Parchedig Philip Barnett.**



*Gohebydd – Rhiannon Jones*

## Horeb, Llanrwst



***Priodas Sioned a Hywel yn Horeb***

## Ebeneser, Caernarfon

**COLLI GWERN**
Yn bump ar hugain oed, bu farw Gwern Llwyd Owain, mab Robin ac Eirian Llwyd Owain, Rhuthun, ac ŵyr Eira a'r diweddar Owain Owain. Pan nad oedd ond pymtheg oed, trawyd Gwern yn wael â lewcemia. Brwydrodd yn galed i fynd ymlaen â'i addysg gan lwyddo i ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Mathemateg ym Mhrifysgol Caerdydd. Yna ym Mhrifysgol Caerhirfryn fe dderbyniodd radd MSc a chyn ei farwolaeth annhymig bu'n gweithio ar ddoethuriaeth. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu oll yn eu galar.

**DYMUNIADAU GORAU**
Wedi wythnosau lawer yn yr ysbyty, mae Glenys Williams a hefyd Aelwen Morris yn gwella. Anfonwn ein cofion cynhesaf atynt.

**ER COF AM THOMAS GLYN GRIFFITHS**
Ar ôl gwaeledd blin, bu farw Tom Griffith yn naw deg pum mlwydd oed. Bu'n swyddog effeithiol a graenus am flynyddoedd lawer yn Ebeneser. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod Blodwen a'r teulu oll. Bu Blodwen a Tom yn briod am bum deg saith o flynyddoedd, a'r ddau yn ffyddlon iawn yn Ebeneser.

**DIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd ein Gŵyl Ddiolchgarwch eleni o dan arweiniad y Diacon Stephen Roe, a roddodd inni anerchiad gafaelgar ac amserol. Cymerwyd rhan gan Myfi Powell Jones, Branwen Edwards, Carol Davis a Gwenllian Roberts. Roedd y canu yn orfoleddus a mwynhawyd unawdau gan June Aubrey, Morwenna Roberts a John Howard Hughes. Gwerthfawrogwyd yn arbennig gyfraniad y plant: darlleniadau gan Catrin, Henry ac Alis ac unawd ar yr utgorn gan Catrin. Yn dilyn y gwasanaeth mwynhawyd paned a sgwrs. Fel y llynedd, cyfrannwyd rhoddion i'r Banc Bwyd lleol.

*Gohebydd: Branwen Edwards*

## Ebeneser, Treuddyn

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Emma a David sydd yn byw yn yr Alban ar enedigaeth Evelyn Jean, wyres i Mrs Gweryl Hughes, a llongyfarchwn Becky a Glenn Pritchard ar enedigaeth Dylan James, brawd i Connor a gor-ŵyr i Mrs Rachel Jones.

**DIOLCH**
Pob bendith i'n swyddogion sef Mrs Gweryl Hughes (Trysorydd), Mrs Glenys Davies (Ysgrifennydd Aelodaeth) a Miss Barbara Milne (Swyddog Iechyd a Diogelwch). Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i Mr Ron Griffiths am ei waith ar hyd y blynyddoedd.

**CYFARFOD PREGETHU A CHYFARFOD DIOLCHGARWCH**
Braf oedd croesawu'r Parchedig Ddr Jennie Hurd yn ôl i Ebeneser i ofalu am ein Cyfarfod Pregethu. Mwynhaodd pawb ei chwmni dros baned ar ôl y gwasanaeth. Cawsom wasanaethau Diolchgarwch bendithiol iawn hefyd dan ofal y Parchedig Marc Morgan.

**PRIODAS**
Ar 24 Medi, priodwyd Siân Manning (merch Olga a David ac wyres i Mrs Gwyneth Jones) a Niall Aikman o'r Alban. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Eirlys Gruffydd.



**CYDYMDEIMLO**
Trist yw cyhoeddi marwolaeth Mr Tan, tad Mrs Maureen Griffiths yn Singapore. Cydymdeimlwn â Maureen a David a'r teulu i gyd.

**CAROLAU**
**Cynhelir ein gwasanaeth carolau dwyieithog brynhawn Sul 20 Rhagfyr am 2.30yp. Croeso cynnes i bawb. Unwaith eto diolchwn i'r Parchedig Eirlys Gruffydd am ofalu am y gwasanaeth carolau ac am ei gofal ar hyd y flwyddyn.**

*Gohebydd – Maldwyn Roberts*

# ADDOLI – UN FFORDD, PEDWAR LLAIS



gan Delyth Wyn Davies

Ychydig yn ôl rhoddwyd sylw i gyhoeddi cryno ddisg gyda thraciau o donau emynau ar gyfer capeli ac eglwysi sydd heb organyddion, a bu'n destun trafod ar raglen *Taro'r Post* ar Radio Cymru. Roedd yn ymddangos eu bod yn chwilio am rywun i wrthwynebu'r syniad o gyhoeddi traciau cefndir i emynau, fel petai'n beth ofnadwy i'w wneud, ond nid felly y bu. Parodd i mi holi fy hunan pam y byddai unrhyw Gristion yn awyddus i wrthwynebu rhywbeth a fyddai'n helpu pobl i addoli Duw. Yr ymateb a gafwyd ar *Taro'r Post* oedd nifer o bobl yn ffonio i mewn i ddweud cynifer o organyddion oedd ganddyn nhw yn eu capel neu eglwys – nifer yr organyddion yn cynyddu gyda phob galwad! Aeth un ymlaen i ddweud bod y gynulleidfa bob tro yn canu mewn pedwar llais. Mae'n swnio'n hyfryd iawn i mi, yn enwedig o gofio bod canran uchel o gynulleidfa fy nghapel i yn cadw'n dawel am eu bod yn credu nad ydynt yn gallu canu. Ond ai dyna beth sy'n bwysig mewn gwirionedd? Ai dyma beth sy'n gwneud addoliad? Wrth bendroni dros ryw gwestiynau fel hyn, bûm yn holi fy hunan beth yw addoli mewn gwirionedd.

Y diffiniad o addoli sydd i'w weld yn y Beibl Canllaw, a gyhoeddwyd yr haf hwn, yw ***Ymostwng gerbron Duw, cydnabod ei hawliau dwyfol, mynegi'r mawl sy'n ddyledus iddo oherwydd yr hyn ydyw ynddo'i hun a'r hyn y mae wedi ei wneud, ac ymrwymo i'w wasanaethu.***

Gwyddom fod addoliad yn y Beibl yn gallu amrywio. Cyn teml Solomon roedd y pwyslais ar addoliad aberthol – aberthu anifail neu rawn sef rhywbeth oedd yn werthfawr i'r rhoddwr ac yn gostus i'w roi. A chredwch chi fi, roedd hyn yn aberth go iawn. Roedden nhw'n rhoi'r pethau mwyaf gwerthfawr, y cyntafanedig neu'r blaenffrwyth, gan ddangos eu blaenoriaethau. Duw oedd yn dod yn gyntaf. Roedd yr aberthau hyn yn cynrychioli diolchgarwch i Dduw ond hefyd weithiau roeddent yn offrymau i wneud yn iawn am bechod.

Mae diolchgarwch a'r gri am faddeuant yn parhau yn nes ymlaen yn yr Hen Destament ac fe welwn bwyslais ar ganu mawl, cyhoeddi gweithredoedd rhyfeddol Duw ac ymbil am faddeuant a thrugaredd, yn enwedig yn llyfr y Salmau, llyfr y byddwn yn aml yn troi ato i'n cynorthwyo wrth addoli. Mae adnodau cyntaf Salm 95 yn enghraifft ardderchog o addoliad Iddewig adeg yr Hen Destament:


*Dewch, canwn yn llawen i'r Arglwydd,*
*rhown floedd o orfoledd i graig ein hiachawdwriaeth.*
*Down i'w bresenoldeb â diolch,*
*gorfoleddwn ynddo â chaneuon mawl.*
*Oherwydd Duw mawr yw'r Arglwydd,*
*a brenin mawr goruwch yr holl dduwiau.*
*Yn ei law ef y mae dyfnderau'r ddaear,*
*ac eiddo ef yw uchelderau'r mynyddoedd.*
*Eiddo ef yw'r môr, ac ef a'i gwnaeth;*
*ei ddwylo ef a greodd y sychdir.*
*Dewch, addolwn ac ymgrymwn,*
*plygwn ein gliniau gerbron yr Arglwydd a'n gwnaeth.*
*Oherwydd ef yw ein Duw,*
*a ninnau'n bobl iddo a defaid ei borfa ;*
*heddiw cewch wybod ei rym,*
*os gwrandewch ar ei lais.*

Yr enghraifft fwyaf amlwg o bobl Dduw'n addoli yn y Testament Newydd yw'r disgrifiad a gawn o addoliad yr Eglwys Fore yn Actau 2:42. Yma darllenwn y geiriau *Yr oeddent yn dyfalbarhau yn nysgeidiaeth yr apostolion ac yn y gymdeithas, yn y torri bara ac yn y gweddïau*. Mae'n ddiddorol hefyd bod anogaeth Paul yn ei lythyr at y Colosiaid (3:16) yn sôn am agwedd arall ar addoliad yr Eglwys Fore. *Â chalonnau diolchgar canwch i Dduw salmau ac emynau a chaniadau ysbrydol*.

**Un peth sy'n amlwg ym mhob rhan o'r Beibl yw bod addoli'n cyffwrdd pob rhan o'n bywyd.** Addoliad yw bywyd i gyd, sef offrymu ein holl fywyd i Dduw fel 'gwasanaeth'. Nid rhywbeth a gyfyngir i un awr ar y Sul yw addoli. Yr un yw'r 'gwasanaeth' o fawl â'r 'gwasanaeth' a rown i Dduw ac i eraill. Yn Luc 4:8 darllenwn y geiriau *Atebodd Iesu ef, "Y mae'n ysgrifenedig: " 'Yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac ef yn unig a wasanaethi.' "* Caiff hyn ei adlewyrchu gan awdur y Llythyr at yr Hebreaid wrth annog pobl yr eglwysi i addoli - *Felly, gadewch i ni foli Duw drwy'r adeg, o achos beth wnaeth Iesu. Y ffrwythau dyn ni'n eu cyflwyno iddo ydy'r mawl mae e'n ei haeddu. A pheidiwch anghofio gwneud daioni a rhannu'ch cyfoeth gyda phawb sydd mewn angen. Mae'r math yna o aberth yn plesio Duw go iawn.* (Hebreaid 13:15-16, Beibl.net) Caiff ei ategu ymhellach gan Paul yn ei ddisgrifiad o wir addoliad yn Rhufeiniaid 12:19: *Felly, am fod Duw wedi bod mor drugarog wrthoch chi, frodyr a chwiorydd, dw i'n apelio ar i chi roi eich hunain yn llwyr i Dduw. Cyflwyno eich hunain iddo yn aberth byw - un sy'n lân ac yn dderbyniol ganddo. Dyna beth ydy addoliad go iawn!* (Beibl.net)

**Dyma bedwar cwestiwn y gallwn eu hystyried:**

**1. Pwy ydan ni'n ei addoli?**
Mae'n debyg bod hwn yn swnio'n gwestiwn twp i'w ofyn. Onid yw'r ateb yn amlwg? Wrth gwrs, Duw yw'r un rydym yn ei addoli trwy Iesu Grist. Ond beth am droi'r cwestiwn ar ei ben a gofyn pwy ydan ni'n trio ei blesio yn ein haddoliad – ai Duw ynteu ni ein hunain? Efallai y bydd hyn yn ein helpu i feddwl a yw ein haddoliad ni yn adlewyrchu'r math o addoliad a welir yn y Beibl a holi'n



hunain pwy sy'n dod yn gyntaf a beth sy'n plesio Duw. Er y sôn am aberthu yn yr Hen Destament, ein hagwedd tuag at yr addoli sy'n cyfrif go iawn. Daw hyn yn amlwg yn Salm 51:17:

*Nid aberthau sy'n dy blesio di;*
*a dydy offrwm i'w losgi ddim yn dy fodloni di.*
*Yr aberthau wyt ti eisiau ydy ysbryd wedi ei ddryllio,*
*calon wedi ei thorri, ac ysbryd sy'n edifar–*
*Wnei di ddim diystyru peth felly, O Dduw.* (Beibl.net)

Wrth gwrs, mae agwedd yn bwysig ym mhob rhan o'r gwasanaeth, yn y canu, y darllen, y gweddïo cyhoeddus a phersonol, y gwrando – a hyd yn oed y casgliad! Un o'r profiadau mwyaf gwefreiddiol a gefais oedd treulio mis yn y Congo rai blynyddoedd yn ôl a mynychu gwasanaethau o addoliad, nid yn unig ar y Sul ond ar achlysuron eraill hefyd, gan ymuno yn y dathlu a'r diolchgarwch, a hynny mewn gwlad lle roedd y boblogaeth dan orthrwm gwleidyddol ac yn wynebu tlodi enbyd. Ym mhob gwasanaeth ystyrid y casgliad, neu i ddefnyddio'r term cywir, yr offrwm yn rhan annatod a gwerthfawr o'r addoliad. Y traddodiad oedd bod pawb yn dod ymlaen yn ei dro i sain cerddoriaeth fywiog, i gyflwyno ei offrwm yn y fasged yn y tu blaen. Rwy'n cofio un gwasanaeth i ddathlu lansio cwch newydd i gludo pobl a nwyddau i ardaloedd pellennig ac anghenus; yno daeth dros ddwy fil o bobl ymlaen yn eu tro gan ddawnsio mewn llawenydd am eu bod yn falch o gael cyfrannu at waith yr Arglwydd. Parodd y rhan hon o'r gwasanaeth dros awr, a'r gwasanaeth ei hun dros bedair awr!

**2. Pwy sy'n cael addoli?**
Cwestiwn gwirion arall? Wrth gwrs bod pawb yn cael addoli. Ond efallai y dylem ystyried beth mae hyn yn ei olygu mewn gwirionedd, yn ymarferol yn ogystal ag mewn egwyddor. Ydyn ni'n ei gwneud yn hawdd ynteu'n anodd i bobl? Beth am ystyried ein dulliau o addoli? Ydy ein haddoliad yn adlewyrchu'r amrywiaeth y cyfeirir ato yn y Testament Newydd? **Tybed a oes yna gysylltiad rhwng ein dulliau a'r dirywiad yn yr eglwysi?** Ac a ydym yn cau rhai pobl allan, hyd yn oed heb feddwl? Mae cymaint y gellir ei wneud i gynnwys plant, pobl ifanc, y bobl sydd heb brofiad o gapel, y rhai sy'n ddall, y byddar, y galarus, y bobl hynny sy'n cael bywyd yn anodd. A beth am y person hwnnw sydd wedi bod yn ystyried dod i'r capel ers misoedd ond yn ofni mentro...yna, ar yr union Sul y cyrhaedda'r capel, dyna'r capel wedi cau am nad oedd pregethwr. Wrth ystyried y geiriau yn Salm 95, y cyfeiriwyd atynt yn gynharach, *Dewch, addolwn ac ymgrymwn, plygwn ein gliniau gerbron yr Arglwydd a'n gwnaeth,* cofiwn mai gwahoddiad sydd yma. Tybed a ddylem ein holi ein hunain pryd oedd y tro diwethaf i ni wadd rhywun neu annog rhywun i addoli? Yng



Nghynhadledd yr Eglwys Fethodistaidd eleni rhoddodd y Llywydd, y Parchedig Steve Wild, her i'r eglwysi sef ennill un person newydd at Grist ac i addoli yn eu plith. **Yn Synod Cymru eleni byddwn yn annog eglwysi i gymryd yr her hon o ddifrif ac i glustnodi Sul y Pasg fel cyfle arbennig i wadd pobl i ddod i wasanaeth o addoliad**.

**3. Pwy sy'n gyfrifol am yr addoli?**
Dros y blynyddoedd deuthum yn fwy ymwybodol pa mor bwysig yw hi i bob un gyfranogi mewn addoliad. Mae'r egwyddor yn cael ei hyrwyddo yn amlwg gan yr Eglwys Fethodistaidd trwy raglen o'r enw *Youth Participation Strategy* – sydd hefyd yn berthnasol i bawb o bob oed. Yma ceir pwyslais ar bawb yn cyfrannu at fywyd yr eglwys, a'r ffaith fod gan bawb gyfraniad i'w wneud i hyrwyddo bywyd yr eglwys. Mae'n ddiddorol sylwi ar eiriau Paul yn 1 Cor 14:26 sy'n awgrymu bod gan bawb ei gyfraniad. *Beth dw i'n ei ddweud felly, ffrindiau annwyl? Pan fyddwch yn cyfarfod gyda'ch gilydd, mae gan bawb rywbeth i'w rannu – cân, rhywbeth i'w ddysgu i eraill, rhyw wirionedd sydd wedi ei ddatguddio, siarad iaith ddieithr neu'r gallu i esbonio beth sy'n cael ei ddweud.* (Beibl.net) Yn y strategaeth ar gyfer cyfranogi cawn ein hannog i ymgynghori â phobl ifanc ynglŷn â sut yr hoffent weld pethau'n datblygu yn yr eglwys. Gallwn fynd â hyn ymhellach o fewn rhaglen Datblygu Ein Galwad eleni trwy **ymgynghori â phawb o bob oed ynghylch y math o addoli yr hoffem ei weld yn ein heglwysi** a holi beth fyddai'n denu pobl newydd i addoli. Ar yr un pryd gallwn annog pobl o bob oed i helpu i arwain y gwasanaeth, ac annog y gynulleidfa i gymryd rhan weithredol trwy ddefnyddio dulliau creadigol. Gallwn hefyd gynnig cyfleoedd hollol newydd i addoli megis eglwys gaffi neu Llan Llanast.

**4. Pwy sy'n ysgogi'r addoli?**
Heb bresenoldeb a gwaith yr Ysbryd Glân gall ein haddoli fod yn ddibwrpas ac yn llwm. Ef sy'n ein hysbrydoli ac yn ein cymell i addoli; ef hefyd sydd yn rhoi'r gallu i addoli, prun ai a fyddwn yn teimlo fel addoli neu beidio. Y dimensiwn ysbrydol hwn sydd yn gwneud addoli yn beth anodd ei ddisgrifio i eraill. Ystyriwch eiriau Iesu wrth y wraig ger y ffynnon: *Ond y mae amser yn dod, yn wir y mae yma eisoes, pan fydd y gwir addolwyr yn addoli'r Tad mewn ysbryd a gwirionedd, oherwydd rhai felly y mae'r Tad yn eu ceisio i fod yn addolwyr iddo. Ysbryd yw Duw, a rhaid i'w addolwyr ef addoli mewn ysbryd a gwirionedd.* Ac mae hynny'n fy arwain at un cwestiwn bach arall i'w ystyried neu ei drafod - beth yw ystyr 'addoli mewn ysbryd a gwirionedd'?

**A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith. Rhufeiniaid 15: 13**

# CAPEL NI
YN EGLWYS IESU

## Tabernacl, Llanfyllin

**CYFEILLION DRWS AGORED**
Yng nghyfarfod cyntaf tymor 2015-16 y siaradwr gwadd oedd Sue Blower o Drefaldwyn, yn sôn am ei phrofiadau yn Romania ddechrau'r 1990au, pan anfonwyd hi i sefydlu canolfan hyfforddi nyrsio. Er mor anodd y sefyllfa, llwyddodd Sue i wneud gwahaniaeth a chafodd y profiad effaith ddofn arni hithau. Cynhaliwyd Swper y Cynhaeaf ar Hydref 7fed gydag adloniant ar y piano a'r ffliwt gan Andrew ac Anna Williams o Lanfyllin. Ar 4 Tachwedd, testun sgwrs Tom a John Ellis oedd 'Ddoe a Heddiw'.

**CODI ARIAN**
Cawsom nifer o achlysuron codi arian yn ystod mis Medi er budd Gweithredu Dros Blant, Y Gymdeithas Feiblaidd, Cymorth Cristnogol, Hosbis Hafren a Nyrsys Macmillan. Codwyd dros £200 ar bob achlysur.

**DIOLCHGARWCH**
Yng Nghyfarfodydd Diolchgarwch Pendref a Tabernacl, rhoddodd Mr Huw Ellis, cyn-brifathro'r Ysgol Gynradd, sgwrs hwyliog a phwrpasol i'r plant. Ar nos Lun Diolchgarwch y pregethwr gwadd oedd y Parchedig Nia Morris, y Drenewydd. Anfonwyd y casgliad o £180 i gronfa Helpu Ffoaduriaid.

**LLONGYFARCHIADAU**
Dymuniadau gorau i Owain Griffiths, mab Roy ac Anwen Griffiths, ar ei briodas â Hannah Morris yn Swettenham, Sir Gaer. Llongyfarchiadau hefyd i Alastair a Gwen Turner a ddathlodd eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

**GWELLHAD BUAN**
Gyda gofid y clywsom am ddamwain Huw Francis, Penllwyn. Mae'n gweddïau gydag ef, sy'n wael iawn yn Ysbyty Stoke, a chydag Alwena a'r teulu yn eu pryder amdano. Gobeithio erbyn i'r rhifyn hwn ymddangos y bydd newyddion gwell am Huw. Da clywed bod Mair, merch Huw ac Alwena, hefyd Emma y ferch yng nghyfraith yn gwella.

Dymunwn wellhad hefyd i Shirley Powell, Bronygaer, a Iorwerth Jones, yr Alders.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn ag Ann Ellis, Tŷ Brith, ar farwolaeth ei modryb yn ddiweddar.

**SUL Y BEIBL**
Cynhaliwyd Oedfa Flynyddol Sul y Beibl yn y Tabernacl o dan arweiniad y Parchedig Gwyndaf Richards a Shân Mayor gyda chymorth hefyd gan y Parchedig Darren Mayor. Cyflwynodd nifer o'r gynulleidfa hoff rannau o'r Beibl. Offrymwyd y gweddïau gan Ross Crawford; cyfeiliwyd gan Eldrydd Jones; gofalwyd am y baned gan Mair Ellis a Decia Blacker; a diolchwyd i bawb gan Robin Hughes.


*Ebeneser, Dolgellau – 'Awn ar y trên bach'*

**GWEITHREDU DROS BLANT**
Yn 2015, llwyddodd Capel y Tabernacl i godi £828.09 er budd Gweithredu Dros Blant, trwy gasgliadau a blychau casglu a thrwy achlysur Cerdded Coedwig a The Prynhawn a stondinau. Dymuna'r cyswllt lleol sef Mrs Decia Blacker ddiolch yn fawr iawn i bawb.

*Gohebydd – Robin Hughes gyda chymorth Rhoswen Charles a Mair Ellis*

## Pont Robert

**DIOLCHGARWCH**
Yng Nghyfarfod Diolchgarwch plant yr ysgol, cafwyd sgwrs gan Roy Griffiths o Bont Robert. Cawsom hefyd Gyfarfod Diolch Undebol dan ofal yr Annibynwyr; pleser oedd croesawu'r Parchedig Dilys Jones, Amwythig. Menna Lloyd oedd yr organydd. Paratowyd te ar ddiwedd yr oedfa gan aelodau Penllys, Penuel a Phont Robert a chawsom gyfle i fwynhau sgwrs.

**BRYSIWCH WELLA**
Dymuniadau gorau i'n haelod hynaf sef Gwyn Jones, Nantlle, a chofion hefyd at Mair ei wraig sy'n gofalu amdano.

*Gohebydd – Margaret Blainey*

## Ebeneser, Dolgellau

**CYDYMDEIMLO**
Ganol Awst cafwyd newyddion trist am ddamwain angheuol i John Eric Lloyd, Llwyn Bach, yn dair ar hugain oed. Roedd yn fab i Alun a Mary a brawd i Sharon, Catherine a Helen. Arweiniwyd gwasanaeth i ddiolch am fywyd John gan y Parchedig Angharad Griffith. Cydymdeimlwn a'r holl deulu yn eu colled lem.

Bu farw Raymond James Handley, Manhyfryd, a fu'n selog iawn yn Ebeneser. Arweiniwyd yr angladd gan y Parchedig Patrick Slattery. Bydd colled fawr ar ei ôl a chydymdeimlwn â'i wraig Janet a'r teulu.

**GWELLHAD**
Wedi anffawd yn y tŷ, bu Margaret Barron, Chester House, yn yr ysbyty ond da yw gwybod ei bod yn gwella. Dymunwn wellhad buan hefyd i'n gweinidog y Parchedig Angharad Griffith yn dilyn anhwylder.

**GENEDIGAETH**
Ganwyd geneth fach, Marged Ann, i Eira ac Alun ar Awst 29ain ym Mhenygroes. Chwaer fach i Lewis ac Ioan ac wyres i Ronald ac Ann Williams, Swn-y-Gwynt.

**TRIP Y CAPEL**
A'r Fedi 19eg bu ugain ohonom ar wibdaith ar y bws i Aberystwyth ac yna ar y trên bach i Gwm Rheidol. Cawsom amser a thywydd ardderchog a diolchwn yn fawr i'r Chwaer Eluned am ei threfniadau trylwyr. Gobeithiwn fod ganddi rywle arall mewn golwg at y flwyddyn nesaf!

*Gohebydd – Gwyneth Meredith*

## Bethel, Amlwch

**DIOLCHGARWCH**
Cawsom wasanaeth bendithiol iawn dan arweiniad y Parchedig Elfryn Jones, Caergybi. Yr organydd oedd Len Thomas a chafwyd canu grymus. Cawsom gyfle hefyd i fwynhau lluniaeth a sgwrs yn dilyn yr oedfa.

**ORGAN NEWYDD**
Llawenydd o'r mwyaf yw cael defnyddio ein horgan newydd, sydd yn cyfoethogi ein haddoliad. Gwasanaethodd ein hen organ yn dda am dros 37 o flynyddoedd.

*Gohebydd – Len Thomas*

## Horeb, Croesoswallt

**ER COF ANNWYL**
Trist oedd clywed am farwolaeth Mr Sidney Lloyd yn y Court, West Felton. Ymddeolodd ef a'i briod i Groesoswallt ar ôl bod yn ffermio yn ardal Pontfadog. Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at y teulu yn eu profedigaeth.

**DIOLCHGARWCH**
Ein pregethwr gwadd yn Horeb eleni oedd y Parchedig Marc Morgan, Wrecsam, a'r organydd oedd Mrs Catherine Wilson. Diolch i'r rhai a addurnodd y capel yn hardd.

**Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL**
I ddechrau ein tymor newydd, cawsom swper blasus a baratowyd gan chwiorydd Horeb. Roedd yn braf croesawu'r gŵr gwadd, Arwyn Davies o Lanerfyl neu Arwyn Groe, a siaradodd am ei gyfrol *Beirdd Bro Eisteddfod Maldwyn*. Ar y diwedd gwerthwyd nwyddau a oedd dros ben o'r cyfarfod diolch, a'r elw yn mynd i Hosbis Hafren.

*Gohebydd – Eurwyn Jones*

## Seion, Pwllheli

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion at Mrs Dilys Jones a fu yn yr ysbyty am rai wythnosau ond sydd bellach yng Nghartref Plas-y-Don, Pwllheli ac yn gobeithio mynd adref yn fuan. Dymuniadau gorau hefyd i'n gweinidog y Parchedig Gwyn Thomas a gafodd driniaeth i'w lygaid.

**YMWELIAD Y CADEIRYDD**
Roeddem yn falch iawn o gael croesawu'r Parchedig Jennifer Hurd ym mis Medi a chlywed ei phregeth amserol. Darllenwyd yn y gwasanaeth gan Dr Osian Ellis a chyfeiliwyd gan Valerie Williams.

*Gohebydd – Elizabeth D. Owen*

## Ardal Bathafarn

**LLONGYFARCHIADAU**
Pob dymuniad da i Elfed Jones, Glyndyfrdwy, a Nia Morris, Corwen, ar eu dyweddïad.

**GWIBDAITH**
Bu rhai o aelodau Ardal Bathafarn ynghyd â chyfeillion eraill am benwythnos i Leamington Spa a Stratford upon Avon. Cafwyd amser da iawn a diolchwn yn fawr i Rhian a Dei am drefnu popeth.

**CYMDEITHAS BATHAFARN**
Yng nghyfarfod cyntaf y tymor cawsom sgwrs am hanes Cymru gan Iorwerth Roberts, mab y diweddar Barchedig J. Alun Roberts, yna mwynhau swper Diolchgarwch blasus iawn. Yn y cyfarfod nesaf cawsom hanes am Tansania. Diolch yn fawr i'r siaradwyr ac i drefnwyr y Gymdeithas.

**GWASANAETH UN BYD**
Yn y gwasanaeth eleni yn Eglwys Sant Pedr, cawsom anerchiad gan Sarah Wheat, swyddog gyda'r Esgobaeth. Mae hi, ynghyd â gwirfoddolwyr eraill yng nghylch Wrecsam, yn darparu bwyd i blant yn ystod gwyliau'r haf.

**PREGETHWYR CYNORTHWYOL**
Braf oedd dod at ein gilydd fel pregethwyr cynorthwyol yn ein cynhadledd yn Nolgellau dan arweiniad y Parchedig Jennie Hurd. Diolch i Gron Ellis, yr ysgrifennydd, am y trefniadau ac i'r Chwaer Eluned am y lluniaeth.

**ANRHYDEDD**
Derbyniodd Elis, ŵyr Beryl a Iolo Evans, wobr gan y Gwasanaeth Tân am roi cymorth yn dilyn damwain a gafodd ei frawd, Rhys. Da deall fod Rhys yn well a llongyfarchiadau mawr i Elis.

**CYDYMDEIMLO**
Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at Robin ac Eirian Llwyd Owain ac Erin yn eu profedigaeth fawr o golli Gwern.

Cydymdeimlwn yn ogystal â Glenys Hughes ym marwolaeth ei chyfnither Bronwen Jones, Llanfwrog.

**BRYSIWCH WELLA**
Ein cofion anwylaf at Gretta Davies, sydd bellach gartref o'r ysbyty, a phawb sydd heb fod yn dda.

*Gohebydd – Elizabeth Jones*

## Bethel, Prestatyn

**CROESAWU EIN GWEINIDOG NEWYDD**
Rydym yn falch iawn o groesawu'r Diacon Jonathon Miller, ei wraig Rebecca a'u plant Isaac, Elizabeth a Naomi i'n plith. Maent wedi dod atom o dde Lloegr ac mae Jon yn brysur yn dysgu Cymraeg. Dymunwn bob hapusrwydd i chi fel teulu yn eich galwedigaeth newydd.

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig ym Methel i groesawu Jon i'r Ardal ac i Synod Cymru Daeth teulu a ffrindiau a gweinidogion o bell ac agos i'w gefnogi. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Jennie Hurd.

**GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein dymuniadau gorau at Mrs Joyce Parry, Mr John Herbert Williams a Mrs Gwyneth Hughes, sydd mewn cartrefi henoed, ac at Mrs Gwen Parry Jones a gafodd anffawd a thorri ei chlun.

**TYMOR NEWYDD**
Dymunwn yn dda i holl blant yr Ysgol Sul sydd wedi dechrau blwyddyn newydd. Pob dymuniad da hefyd i Hannah Hughes ym Mhrifysgol Lerpwl ac i Lowri Mai Thomas ym Mhrifysgol Bangor.

**CYMDEITHAS LENYDDOL EGLWYSI CYMRAEG PRESTATYN**
Mwynhawyd swper blasus i ddathlu'r Diolchgarwch a chafwyd sgwrs hynod o ddiddorol gan Mrs Esther Jones am hanes gwraig ffarm. 'Bwyd a Bywyd rhwng y Cledrau' yw testun ein cyfarfod nesaf, gan Mr Geraint Griffith ar 19eg o Dachwedd.

**GWASANAETH DIOLCHGARWCH**
Hwn oedd ein gwasanaeth cyntaf dan ofal ein gweinidog newydd, y Diacon Jon Miller – gwasanaeth llawn egni a hwyl ar gyfer pob oed. Cawsom weithgareddau yn ystod y gwasanaeth – rhannu fferins, ysgrifennu ar ddail papur enwau y rhai oedd angen ein gweddïau a gosod y dail ar goeden yn y sêt fawr. Yn ystod y darlleniad o stori Sacheus roedd y plant wrth eu boddau yn gweiddi allan a gwneud symudiadau wrth glywed geiriau arbennig yn y stori. Yn lle addurno'r Capel â ffrwythau a llysiau, daeth pawb â rhodd i Fanc Bwyd Prestatyn a chawsom gyfle i osod y rhain yn y sêt fawr yn ystod yr emyn gyntaf.

Yn dilyn y gwasanaeth mwynhawyd cinio wedi ei baratoi gan rai o'r aelodau. Gwnaethpwyd casgliad yn y cinio a chawsom elw o bron i £200 tuag at gronfa'r Capel. Diolch o galon i bawb am eu gwaith, y rhoddion o fwyd ac am eu cefnogaeth.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau mawr i'r teulu Lainingham ar enedigaeth mab bach sef Thomas, brawd bach i Luke, Elizabeth ac Evie. Mae Sara a'r plant yn aelodau ffyddlon o'r Ysgol Sul. Pob bendith i'r teulu bach.

Llongyfarchiadau hefyd i Daniel ap Geraint ar ei lwyddiant ym mwyty Blas. Yn yr wythnosau diwethaf, mae Blas yn y 'Good Food Guide' ac yn y 'Michelin Food Guide'.

**CYNHADLEDD DYDD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD**
Chwiorydd Bethel oedd yn gyfrifol am gynnal y Gynhadledd eleni. Bu'n rhaid symud i Gapel Rehoboth oherwydd y gwaith atgyweirio ym Methel. Diolch yn fawr i'r Parchedig Brian Huw Jones, swyddogion Rehoboth a'u horganydd Mrs Ann Evans am ein helpu gyda'r Gynhadledd. Cyfle i baratoi ar gyfer Dydd Gweddi mis Ebrill yw hwn, ac roedd yn braf cyfarfod a sgwrsio gyda merched o wahanol eglwysi yn y Gogledd.

**PLENTYN Y NADOLIG**
Mae plant yr Ysgol Sul wedi bod yn casglu nwyddau a phacio blychau ar gyfer Ymgyrch Plentyn y Nadolig, a hefyd yn tynnu lluniau ac ysgrifennu llythyrau i'w gosod yn y blychau.

*Gohebydd – Gwenda Humphries*

Dymuna Rhian a Ffion ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad ym marwolaeth ein diweddar fam, Eurwen Pennant Lewis. Diolch am y rhoddion at Gymorth Cristnogol.

# DILYN FFORDD TANGNEFEDD

## CANMLWYDDIANT CYMDEITHAS Y CYMOD, 1914 – 2014

gan Robin Gwyndaf

Cyfrol a olygwyd gan y Parchg. Athro D. Ben Rees ac a gyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau Modern Cymreig mewn cydweithrediad â Chymdeithas y Cymod, 2015, pris £15

Cyfrol i gofio a diolch, addysgu ac ysbrydoli yw hon. Cofio'r dioddefaint anorfod y mae pob rhyfel erioed wedi'i achosi. Cofio am aberth y miliynau o filwyr ifanc yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd, a phob rhyfel cyn hynny ac wedi hynny. Cofio hiraeth teuluoedd ar ôl eu hanwyliaid. Ac yn y cofio, diolch. Diolch i bawb drwy'r oesoedd, yng nghanol pob rhyfel a gwrthdaro, a chwifiodd faner tangnefedd. Yn arbennig iawn, diolch i ffyddloniaid Cymdeithas y Cymod a gredodd gyda John Penry Jones, o'r Foel, Dyffryn Banw, ym Maldwyn, mai

**Taenu trais ar drais yn drwch**
**Yw lladd i ennill heddwch.**

Stori arwrol iawn yw stori hyrwyddo heddwch yng Nghymru, stori'r gwŷr a'r gwragedd hynny a gododd eu llef yn erbyn rhyfel a thrais; sefyll yn ddewr o blaid heddwch a chyfiawnder, a hynny'n aml ar lwybr digon unig, gan orfod wynebu dirmyg a gwawd. Ymhlith y bobl hyn, yn ystod yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain, yr oedd aelodau a chefnogwyr Cymdeithas y Cymod. Am dros gan mlynedd, o ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf hyd heddiw, bu aelodau'r Gymdeithas yn ymgyrchu'n gyson a diflino i weithredu heddwch, i sicrhau tangnefedd ar y ddaear, yma yng Nghymru, yn Ewrop, ac yn y byd yn grwn.

Mae mwy o angen adrodd y stori heddiw nag erioed. A dyna brif amcan cyhoeddi'r gyfrol hon: rhoi i'r darllenwyr flas o weithgarwch a chyfraniad un gymdeithas yn arbennig a fu'n llafurio o blaid heddwch a thangnefedd, sef Cymdeithas y Cymod. 'Heddwch a thangnefedd', meddwn. Mawr yw'r angen heddiw am weld adfer y tangnefedd hwn; adfer y pwys ar sancteiddrwydd bywyd; adfer y gred fod bywyd pob person yn gysegredig; fod gan bob person yr hawl i fyw.

Yn fwriadol y dewiswyd prif deitl y gyfrol: *Dilyn Ffordd Tangnefedd*, oherwydd fe gred aelodau Cymdeithas y Cymod fod yna wahaniaeth rhwng heddwch a thangnefedd. Gall dwy wlad fod mewn heddwch â'i gilydd, ond onid oes hefyd dangnefedd yng nghalonnau trigolion y gwledydd hynny ac, yn arbennig, yng nghalonnau arweinwyr y gwledydd, mor fregus yw'r heddwch hwnnw; mor fawr yw'r angen am dangnefedd: 'tanc (heddwch) y nefoedd'; heddwch mewnol; heddwch y galon.


Ceir yma hefyd wybodaeth werthfawr am rai o arloeswyr heddwch yng Nghymru cyn cyfnod sefydlu Cymdeithas y Cymod - cymwynaswyr nodedig, megis Henry Richard, Tregaron, yr Apostol Heddwch. Ceir pennod ddadlennol ar gyfraniad hollbwysig yr Arglwydd David Davies, Llandinam. Y prif amcan oedd cyhoeddi cyfrol i ddathlu canmlwyddiant Cymdeithas y Cymod: 1914 - 2014. Ond y mae'r gyfrol hefyd yn ymgais i gyflwyno darlun cryno, cynhwysfawr a chymesur o weithgarwch can mlynedd y Gymdeithas yn ei gyd-destun, yn hanesyddol a chymdeithasol. Gwnaed hynny gan gadw mewn cof gyfraniad gwerthfawr rhai cymdeithasau a mudiadau eraill yng Nghymru, ddoe a heddiw, megis y cymdeithasau heddwch eglwysig.

Ein gobaith yw y bydd y gyfrol yn ysbrydoli pob un ohonom i ddyblu a threblu ein hymroddiad o blaid heddwch. Wrth inni gofio am gan mlynedd o dystiolaeth Cymdeithas y Cymod, cofiwn hefyd fod swyddogaeth y Gymdeithas y dyddiau hyn mor bwysig, onid yn bwysicach, nag erioed, fel y gall bob un ohonom ddweud â'n holl galon:

**Am hynny, cydgerddwn ninnau mewn ffydd**
**Hyd lwybrau tangnefedd bob awr o'r dydd.**
**Cans heddiw mae'r neges yr un mor glir,**
**Megis cân aderyn ar y brigyn ir;**
**A dweud mae'r gân wrth y cenhedloedd ynghyd**
**Mai cariad a chymod sy'n achub y byd.**

# *Planhigion y Beibl*

gan W. Arvon Roberts



### 79. Rhosyn (Narcissus tadezza)

***Yr anialwch a'r anghyfanheddle a lawenychant o'u plegid; y diffeithwch hefyd a orfoledda, ac a flodeua fel rhosyn.*** (Eseia 35:1)

Yn y Beibl Cymraeg Newydd, yr hyn a gawn yw "Llawenyched yr anial a'r sychdir, gorfoledded y diffeithwch, a blodeuo. Blodeued fel maes o saffrwn." Mae'r gair Hebraeg a gyfieithir fel rhosyn neu saffrwn yn arwyddo planhigyn gyda gwreiddyn crwn yn perthyn iddo a chredir mai y *narcissus tadezza* fyddai hwn gan fod aralleiriad Caldeaidd cynharaf y Beibl yn rhoi'r gair Hebraeg *narkom* sef narsisws. Yn y Wlad Sanctaidd mae'r narsisws yn lliw melyn euraidd llachar, lliw nad yw i'w weld mewn hinsawdd oerach. Mae'n tyfu'n wyllt yn yr anialwch hyd at fannau isaf Môr y Canoldir rhwng Mynydd Carmel a Chesarea, a chyn belled â Joppa, gan flodeuo ym mis Ionawr pan fydd y wlad yn helaethrwydd o liw.

### 80. Rhoswydden (Nerium oleander)

***Gwrandewch arnaf, chwi feibion sanctaidd, a blagurwch fel rhosyn a blannwyd ar lan afon ... bendithiwch yr Arglwydd am ei holl weithredoedd ... Mawrygwch ei enw ef, a diolchwch iddo, gan ei foliannu â chaneuon eich gwefusau ac â thelynau..*** . (Ecclesiasticus 39:13,14,15)

Y rhoswydden, sef oleander, yw "rhosyn y ffrydiau dŵr". Mae'n llwyn tal, blodeuog, yn tyfu at uchder o ugain troedfedd. Mae'r rhai sy'n ymweld â'r Wlad Sanctaidd heddiw yn tystio ei fod yn un o'r llwyni prydferthaf yn y wlad honno.

***parhad ar y dudalen nesaf***

# LLWYBR ARFORDIR YNYS MÔN

gan y Diacon Stephen Roe

### Pam cerdded y Llwybr?

Mae Llwybr Arfordir Ynys Môn tua 125 milltir o hyd, yn mynd yr holl ffordd o gwmpas yr ynys. Penderfynais yr hoffwn gerdded yr holl lwybr yn ystod y flwyddyn nesaf, a hynny am sawl rheswm. Yn gyntaf, byddwn yn symud o Sir Fôn y flwyddyn nesaf. Rydyn ni wedi mwynhau byw yma a chyn ymadael fe hoffwn weld rhannau o'r ynys sydd yn anghyfarwydd imi, gan wneud hynny'n hamddenol yn hytrach nag mewn car. Yn ail, cefais fy ysbrydoli gan ein mab, Christopher, a gerddodd o Gaergybi i Borthaethwy, hanner y llwybr fwy neu lai, pan oedd gartref o'r Brifysgol dros yr haf, gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn unig. Yn drydydd, rydw i'n ymwybodol nad ydw i'n cael digon o ymarfer corff, ac yn olaf, roeddwn i'n awyddus i godi arian tuag at Wireddu'r Weledigaeth, apêl gan y Cyngor Methodistaidd Byd-eang.

### Llanfair, Biwmares, Penmon

Felly cychwynnais ar y daith un bore Sadwrn niwlog ym mis Medi. Aeth Angela, fy ngwraig, â fi i Lanfairpwll, a cherddais i lawr lôn dawel at y Fenai. Cyn pen hanner awr, diflannodd y niwl a daeth yn haul braf. Ar y ffordd i fyny at Eglwys y Santes Fair yn Llanfair gwelais gip ar wiwer goch, ac un arall ar y lôn rhwng Llandegfan a Biwmares. Mae'r ymgyrch i adfer y wiwer goch ym Môn yn fy atgoffa o'r cyfrifoldeb a roddir arnom gan Dduw i ofalu am yr holl gread. Mae'r llwybr yn mynd o dan y ddwy bont, sef wrth gwrs Pont Britannia a agorwyd yn 1850 i gario'r rheilffordd o Gaer i Gaergybi a Phont y Borth, y bont grog haearn fawr gyntaf yn y byd, a agorwyd yn 1826. Yna dilyn y llwybr i mewn i'r tir, trwy bentref Llandegfan ac ar hyd lonydd cul i Fiwmares. Cyfle i edmygu'r golygfeydd bendigedig i gyfeiriad mynyddoedd Eryri yna, ar ôl cyrraedd Biwmares, dychwelyd i Borthaethwy ar y bws, mewn da bryd i weld y brodyr Murray yn curo Awstralia yng Nghwpan Davis.

Yr wythnos wedyn, cychwyn allan eto er mwyn cerdded o Benmon i Fiwmares. 'Ffordd anghywir', gallech ddweud, ond buasai'r llanw'n rhy uchel i gerdded i'r cyfeiriad arall. Mae'r rhan hon o'r llwybr yn arwain heibio'r goleudy a cheir golygfa glir o Ynys Seiriol. Yn ôl yr hanes, oddi yma y byddai Seiriol Sant neu Seiriol Wyn yn cerdded bob wythnos â'i gefn at haul y bore, i gwrdd â Chybi Felyn o Ynys Cybi, y byddai haul y bore a haul y pnawn yn tywynnu ar ei wyneb wrth iddo groesi'r ynys i gyfarfod Seiriol. Ar ôl cyrraedd adref yr wythnos hon, roedd gêm fawr Lloegr yn erbyn Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd – go brin bod angen atgoffa neb o'r canlyniad!

### Colli'r Ffordd?

Ar gyfer rhan nesaf y daith, daliais y bws i Benmon unwaith eto a cherdded i Bentraeth. Wrth agosáu at Fwrdd Arthur, un o'r pwyntiau uchaf yn Nwyrain Môn, dyna weld arwydd 'Llwybr Arfordir ar gau – Gwyriad'. Doeddwn i ddim wedi bwriadu dringo i gopa Bwrdd Arthur, ond gan fod y gwyriad yn mynd â fi yno bron, es ymlaen i'r pen a chael fy ngwobrwyo â golygfeydd gwych i bob cyfeiriad. Parhau wedyn i ddilyn y gwyriad ac yn wir dyna arwydd arall 'Llwybr Arfordir ar gau – Gwyriad'. Do, fe gerddais mewn cylch. Un peth braf am gerdded ydy cael amser i feddwl, ac ar ôl dod o hyd i'r ffordd gywir, y syniad o wyriad oedd ar fy meddwl. Mae ein bywyd yn y ffydd yn ein harwain weithiau ar hyd 'gwyriad', llwybr nad oeddem yn disgwyl ei ddilyn. Hawdd tybio ein bod ar goll. Ond ar y gwyriad fe welwn bethau y byddem wedi'u methu petaem wedi aros ar y ffordd 'gywir'. Dilynais y llwybr wedyn ar arfordir Traeth Coch ac i fyny i Bentraeth er mwyn dal y bws. Doedd y canlyniadau ddim cystal heddiw – Burnley yn colli gêm bêl-droed yn erbyn Reading a Chymru yn colli gêm rygbi yn erbyn Awstralia.

### Gwireddu'r Weledigaeth

Soniais ar y dechrau am apêl y **Cyngor Methodistaidd Byd-eang** 'Gwireddu'r Weledigaeth'. Mae'r Cyngor yn cwmpasu 80 o Eglwysi yn y traddodiad Wesleaidd o chwe chyfandir, ac yn **trefnu Cynadleddau Cristnogol ar gyfer pobl ifanc, gweithio tuag at gyfiawnder cymdeithasol a sgwrsio am faterion diwinyddol gydag Eglwysi eraill**. Mae angen arian er mwyn parhau â'r gwaith, a gofynnir i bob aelod o'r Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain roi 50c y flwyddyn am y 5 mlynedd rhwng 2011 a 2016 (sef £2.50 yr aelod). I ni yn Synod Cymru, mae hyn yn golygu rhoi rhwng £2,500-£3,000. Yn y Synod, anogwyd pob Ardal i drefnu digwyddiad er mwyn codi arian at yr achos hwn, ac anfonaf fanylion am sut y gallwch fy noddi, os dymunwch, ar fy nhaith o gwmpas Sir Fôn, drwy law Arweinyddion yr Ardaloedd yn ystod y flwyddyn.

***parhad o Planhigion y Beibl***

Mae'n ffynnu mewn mannau cynnes ac yn tyfu'n helaeth ger ffrydiau neu ffynhonnau. Yn y gwanwyn caiff bentyrrau o flodau llachar sy'n ffurfio clystyrau a gall eu lliw fod yn wyn neu goch neu hyd yn oed borffor.
Mae pob rhan o'r planhigyn yn wenwynig iawn ac mae'n rhaid bod yn ofalus wrth ei drin. Blodeua drwy fisoedd yr haf. Roedd y Cristnogion cynnar yn ei anrhydeddu fel blodeuyn Sant Joseff.



### 81. Rhosyn Saron
(Tulipa sharonensis)

***Yr wyf fel rhosyn Saron, fel lili'r dyffrynnoedd. Ie, lili ymhlith drain yw f'anwylyd ymysg merched.*** (Caniad Solomon 2:1,2)

O gyfieithu yn llythrennol y gair Hebraeg *chabazeleth,* fe gredir mai planhigyn bylb oedd rhosyn Saron, sef tiwlip yn ôl pob tebyg (tulipa sharonensis, tiwlip Saron). Mae'r planhigyn hwn yn ddeg modfedd o uchder gyda dail llwydaidd gwyrdd neu arian a blodau coch gloyw. Yn Nhwrci gelwir y tiwlip hwn yn *shuliban* neu twrban oherwydd fod siâp y blodyn yn debyg i'r benwisg honno. Mae tiwlip Saron yn gynhenid i wastadedd Saron, rhwng Carmel a Joppa, ac yn tyfu'n helaeth yno. Yn dilyn glawogydd blynyddol y gwanwyn, mae'r olygfa ar y gwastadedd yn gyfoethog a phrydferth wrth i'r bryniau islaw Jiwdea edrych tua dyfroedd gloyw Môr y Canoldir i'r gorllewin. Er bod y rhan fwyaf o'r tir yn cael ei ddefnyddio i dyfu cnydau, mae rhai rhannau yn garped o flodau yn y gwanwyn a'r haf cynnar ac ymhlith y blodau gwelir "rhosyn Saron". Proffwydodd Eseia y byddai Saron yn gorlan defaid; ceir yno fraster ac amrywiaeth, ffosydd dyfroedd a thywod sych a choedydd cysgodol.



# CYFARFOD MERCHED METHODISTAIDD

gan Rona Morris

Yn ein cyfarfod a gynhaliwyd yn Llandudno ar ddydd Sadwrn 10 Hydref, estynnwyd croeso i bawb gan ein llywydd Mrs Gwenda Humphries, Prestatyn, ac offrymwyd gweddi gan Mrs Eirian Jones, Cyffordd Llandudno, a oedd yn ein tywys i fyfyrio ar thema'r cyfarfod sef **Gofalu am ein Gilydd**. Wedi inni fwynhau unawd cerddorol swynol gan Tomos Bohana, llanc ifanc o Fae Colwyn, a'i gyfeilydd dawnus Mrs Judith Rees Williams, cawsom ein hysbrydoli gan anerchiad byrlymus yr Athro Mari Lloyd Williams, Llanelwy.

Yn enedigol o Ddyffryn Clwyd, mae Mari bellach yn arwain tîm ymchwil rhyngwladol mewn ysbyty yn Lerpwl. Soniodd am y modd y tueddwn i gyd y dyddiau hyn i warchod ein hannibyniaeth, er yr hoffem i gyd fod yn rhan o gymdogaeth gyfeillgar lle mae pobl yn gofalu am ei gilydd. Nid oes y fath gymdeithas mwyach, mewn gwirionedd, ac mae'n anodd i'r gwasanaethau cymdeithasol lenwi'r bwlch ar adeg o gyni.



*Mari Lloyd Williams*

Cawsom ein hatgoffa mor bwysig yw ymweld yn gyson â'r rhai nad yw'n bosibl iddynt ddod i'r capel neu i weithgareddau eraill. **Oni allwn agor drysau ein heglwysi at ddefnydd cymdeithas, yn amlach nag unwaith yr wythnos?**

Gweld yr angen am gyfeillgarwch a chyfle i gyfarfod am sgwrs a phaned fu'n sbardun i aelodau capel Mari yng Ngwaengoleugoed ger Llanelwy fentro i sefydlu Canolfan Gofal Dydd yno yn 2011. Cafodd pob un ohonom ei sigo dwi'n siŵr gan y datganiad ysgubol a glywsom, fod unigrwydd yn salwch sydd yn llethu ac na all cyffur ei leddfu. **Mae'n rhywbeth y gallwn ni fel unigolion wneud rhywbeth amdano**. Efallai nad oes gennym egni na dawn yr Athro Mari Lloyd Williams i sefydlu canolfannau cyffelyb yn ein hardaloedd; ond gall pob un ohonom godi ffôn neu alw heibio rhywun y gwyddom ni amdano.

Wedi'r cyfarfod cawsom fwynhau lluniaeth a chwmni yn festri Seilo, Llandudno. Diolch am y croeso a gawsom gan chwioryddd Dyffryn Conwy. Cawsom ein hatgoffa ein bod yn rhan o fudiad Cristnogol sydd yn ein herio ac yn pigo'n cydwybod yn gyson, gan alw arnom i weithredu yn ymarferol o fewn ein hardaloedd. Dymunwn Nadolig bendithiol i bob un ohonoch ac edrychwn ymlaen yn awr at ein cyfarfod nesaf yn ystod y Gwanwyn.

# ATGOFION


gan y Parchedig J. Bryn Jones

Byddaf yn hoffi hel atgofion am rai o ddigwyddiadau a phrofiadau pwysicaf fy mywyd, pethau a adawodd argraff arnaf. Sylweddolaf y gall hynny agor drysau megis i bethau pleserus ac amhleserus. Rwy'n gobeithio bod y digwyddiadau da a phleserus yn amlach na'r rhai croes.

Ymhlith yr holl atgofion dyma ddetholiad o rai ohonynt… mae gen i atgofion pleserus iawn o'm rhieni, yn enwedig yn y cyfnod o dlodi cyn yr Ail Ryfel Byd ac yn dilyn marwolaeth fy nhad ym 1935; y fagwraeth hapus a gefais i a fy mrodyr gan fy mam; yr atgofion am ddod yn Fethodist; dychwelyd o wasanaethu yn y Lluoedd Arfog; cofio am Mam yn pryderu amdanom ac yn diolch i'r pump ohonom gael dychwelyd adref yn ddiogel; yna ymgeisio am y weinidogaeth yn yr Eglwys Fethodistaidd a'r hyfforddiant a gefais yng Ngholegau Cliff a Handsworth. Nid anghofiaf ddiwrnod fy ordeinio gan y Parchedig J. Gwyn Jones, Llywydd y Gymanfa a'r Parchedig Ddr Donald Soper yng Nghapel Jerusalem, Bethesda, ym 1954; Vera a minnau yn priodi yng Nghapel Moreia, Bangor ym 1955; genedigaeth ein pedwar plentyn - Tudur, Deiniol, Nia ac Angharad.

Diolchaf am bob atgof gan gynnwys prynu fy nghopi cyntaf o'r *Methodist Recorder* yn W.H. Smith ym Machynlleth ym 1947 a'i dderbyn yn wythnosol byth ers hynny, ar wahân i'r cyfnodau yn Cliff a Handsworth Birmingham, ac yn falch o fedru dweud hynny, oherwydd nid newyddion am weithgareddau'r Cyfundeb ym Mhrydain yn unig sydd ynddo, ond hefyd am waith a dylanwad Methodistiaeth Wesleaidd mewn gwledydd eraill. Hoffwn sôn yma am ddwy enghraifft, y darllenais amdanynt yn rhai o rifynnau yr haf diwethaf, y naill yn cyfeirio at ddigwyddiad yn Ewrop a'r llall at weithgaredd yn Asia.

Un o'r digwyddiadau diddorol yn Ewrop y rhoddwyd sylw iddo yn y *Recorder* yw'r hanes am bobl a elwir yn Waldensiaid, sydd â'u gwreiddiau yng Ngogledd yr Eidal ymhell yn ôl yn y 12fed ganrif. Dechreuodd Eglwys y Waldensiaid fel mudiad gyda Peter Waldo yn Lyon - megis y gwnaeth Methodistiaeth gyda John Wesley yn Lloegr yn y 18fed ganrif. I Wesley, roedd pregethu'r Efengyl yn bwysicach na bod yn dderbyniol o fewn Eglwys Loegr; felly hefyd y Waldensiaid, a ddioddefodd ddirmyg Eglwys Rhufain a chael eu hystyried yn hereticiaid.




***Cyfeillion yng Nghrist. Y Pab ac arweinwyr y Waldensiaid***

Pan welais y llun hyfryd, cefais fy nghyfareddu. Llun lliwgar ydoedd o'r Pab Ffransis yn sefyll yn osgeiddig yn un o eglwysi hardd y Waldensiaid, ym mhresenoldeb rhai o aelodau'r eglwys. Llun o'r Pab Ffransis yn gofyn i'r Waldensiaid am faddeuant am y ffordd y cawsant eu camdrin gan y Babaeth dros y canrifoedd. Yn y llun mae'r Ddiacones Alessandra Trotta yn bendithio'r Pab ac yntau'n cydnabod y weithred syml. Anhygoel yn wir - dyma'r tro cyntaf i unrhyw Bab roi ei droed mewn eglwys Waldensaidd.

Mae'r ail hanesyn yn sôn am waith yr Eglwys Fethodistaidd yn Nepal, lle mae 'Prison Fellowship Nepal' (PFN) wedi ymroi ati ers 2004 i sefydlu llyfrgelloedd yng ngharchardai'r wlad fel modd o addysgu a newid agweddau'r carcharorion. Mae'r ymateb wedi bod yn bositif ac wedi arwain at archebu rhagor o Feiblau a llenyddiaeth Gristnogol. Dyma enghraifft ardderchog o gydweithio i newid bywydau pobl.

# WELE'N GWAWRIO DDYDD I'W GOFIO





gan
Dewi Rhys

Rhyw adeg o geisio cadw cydbwysedd rhwng y llon a'r lleddf yw'r Nadolig ar brydiau. Cadw cydbwysedd hefyd rhwng dathlu'n ormodol a pheidio â dathlu'n briodol.

Yn ddiweddar, mae'n debyg fy mod ymhlith y rhai sy'n gwneud cyn lleied ag sy'n bosib. Er fy mod yn hapus i goginio ac i ymweld â theulu a rhoi anrhegion, ychydig iawn o amynedd sy gen i pan ddaw hi i addurno'r tŷ – dim ond ailgylchu tipyn o ryw stwff a ddefnyddiwyd ganwaith. Nid oes fawr o alw am sbloets gan fod fy merch yn ei harddegau erbyn hyn a go brin y byddai'n sylwi a oes pinwydden fawr yn y cyntedd ai peidio. Byddaf yn ei hatgoffa weithiau am y trafferth a gafwyd i wireddu ei dymuniad pan oedd hi'n fach. Cofiaf fod ar fy nhraed am 2am un bore Dolig yn straffaglu i roi tŷ dol pren anferth at ei gilydd. Y siom fwyaf oedd na ddefnyddiwyd y tŷ fwy na hanner dwsin o weithiau – dyna lle mae yn sefyll yn yr atig hyd y dydd heddiw, yn edrych fel newydd.

Atgofion hapus iawn sydd gen i am y Nadolig pan oeddwn innau'n blentyn gyda fy rhieni. Byddai'n cychwyn ryw dair wythnos ynghynt pan fyddwn yn helpu fy mam i wneud y pwdinau. Lot o waith cymysgu ac arogl sur y brandi yn treiddio trwy'r cynhwysion. Pythefnos cyn y diwrnod mawr byddai'r goeden yn cyrraedd ac addurniadau oedd wedi cael eu gwneud yn yr ysgol yn mynd arni. Yna, ar y Sul cyn y Nadolig, yr Ysgol Sul yn cyflwyno Drama'r Geni yn y capel. Braint oedd cael troedio'r sêt fawr, yn enwedig pe bai rhywun yn ddigon ffodus i gael y prif rannau sef Mair a Joseff. Mae gennyf frith gof o fod yn ŵr doeth, yn fugail – hyd yn oed yn Joseff gan sefyll yn y bwlch pan oedd John, mab Ifan Hefin, wedi ei daro'n wael ar y Sul hwnnw.

Un o'm hoff bethau hefyd, adeg y Nadolig, oedd canu carolau gyda'r ysgol o gwmpas tref Caernarfon, gan gasglu arian i'w roi i gartrefi henoed lleol. Dyna pryd y caem fynediad i lefydd nad oeddem wedi eu tywyllu o'r blaen megis yr *Yacht Club*, y *Conservative Club*, y *Black Boy*...Ar Noswyl Nadolig, a ninnau ychydig yn hŷn, byddai criw ohonom yn mynd i wasanaeth hanner nos yn yr Eglwys a chael morio canu yno. Gan fod ambell un o'n cyfoedion yng nghôr yr Eglwys, tueddem i geisio tynnu eu sylw a chwibanu arnynt a hwythau yn eu ffrogiau yn cario cannwyll.

Cwmni rhai o aelodau'r teulu fyddai'n rhoi cyfaredd i Ddydd Nadolig. Byddai chwaer Mam a'i gŵr, Yncl Glyn, yn dod atom. Gan fy ewythr y cefais fy nghyflwyno i lawer o bethau newydd gan gynnwys cerddoriaeth jazz, diddordeb sydd wedi aros hyd heddiw. Un Nadolig pan oeddwn yn 14 oed, dysgodd imi sut i wneud 'hill starts' ar yr hen Gypsy Hill yng Nghaernarfon. Hoffem fynd am dro ar hyd y Fenai ar bnawn Dolig a byddai Yncl Glyn yn gallu peintio darlun o'r olygfa mewn chwinciad ac yna gadael y llun ardderchog yma ar fwrdd y gegin.



I droi at y presennol, hoffaf bob amser fod mewn gwasanaeth o addoliad ar fore'r Nadolig ac edrychaf ymlaen bob amser, os byddaf gartref, at fod yng nghapel Ebeneser, Caernarfon. Dyna sy'n rhoi 'sêl bendith' ar y diwrnod arbennig hwn.



*Hollalluog Dduw, yng Nghrist gwnaethost bob peth yn newydd. Cyfnewidia dlodi ein natur â golud dy ras, ac yn adnewyddiad ein bywydau amlyga dy ogoniant nefol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.*

Llyfr gwasanaeth yr Eglwys Fethodistaidd

**Cyfarchion y Tymor**

Dymuna'r Parchg. Ddr O E Evans a Mrs Margaret Evans anfon eu cyfarchion cynhesaf at eu holl gyfeillion yn Synod Cymru. Dymunwn i chi i gyd Nadolig dedwydd a phob bendith yn ystod y Flwyddyn Newydd.

# Tudalen y Plant




## Cyrraedd Bethlehem

Roedd Mair a Joseff wedi dod ar daith bell iawn, bron i 100 milltir, o Nasareth i Fethlehem. Roedd Mair yn flinedig iawn, ar fin geni'r baban bendigaid. Dydym ni ddim yn gwybod yn bendant, ond efallai'n wir fod mul bach wedi cario Mair ar ei siwrne.



Pa un o'r mulod yma sydd yr un fath â mul Mair a Joseff? **A, B, C, CH**
Beth am eu lliwio i gyd yn wahanol?




**Y Bugeiliaid yn Clywed y Newyddion Da**
Yn ardal Bethlehem roedd bugeiliaid allan drwy'r nos yn yr awyr agored yn gofalu am eu defaid. Yn sydyn dyma nhw'n gweld un o angylion yr Arglwydd, ac roedd ysblander yr Arglwydd fel golau llachar o'u cwmpas nhw. Roedden nhw wedi dychryn am eu bywydau. Ond dyma'r angel yn dweud wrthyn nhw, "Peidiwch bod ofn. Mae gen i newyddion da i chi! Newyddion fydd yn gwneud pobl ym mhobman yn llawen iawn. Mae eich Achubwr wedi cael ei eni heddiw, yn Bethlehem (tref y Brenin Dafydd). Ie, y Meseia! Yr Arglwydd! Dyma sut byddwch chi'n ei nabod e: Dewch o hyd iddo yn fabi bach wedi ei lapio mewn cadachau ac yn gorwedd mewn cafn bwydo anifeiliaid. (Luc 2: 8-12, Beibl.net)

